# Agenda - Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 2 - Y Senedd**

Dyddiad: Dydd Mercher, 12 Rhagfyr 2018

Amser: 09.30

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**Steve George**

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6565

SeneddDGCh@cynulliad.cymru

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

## 2 Craffu Blynyddol ar ITV Cymru Wales

(09.30 - 10.30 ) (Tudalennau 1 - 18)

Phil Henfrey, Pennaeth Newyddion a Rhaglenni

## 3 Papurau i'w nodi

**3.1 Ymateb y Pwyllgor i ymgynghoriad Ofcom ar ofynion 'lleolrwydd' ar gyfer trwyddedau radio**

(Tudalennau 19 - 20)

**3.2 Rhagor o wybodaeth gan Gomisiynydd y Gymraeg**

(Tudalennau 21 - 32)

**3.3 Briff cefndirol ar yr Archif Ddarlledu Genedlaethol gan y Gweinidog Diwylliant, Twristiaeth a Chwaraeon**

(Tudalennau 33 - 34)

**3.4 Copi o lythyr gan Lywydd Llyfrgell Genedlaethol Cymru at y Gweinidog Diwylliant, Twristiaeth a Chwaraeon ynghylch yr Archif Ddarlledu Genedlaethol**

(Tudalen 35)

**3.5 Llythyr gan y Cadeirydd at y Gweinidog Diwylliant, Twristiaeth a Chwaraeon**

(Tudalennau 36 - 37)

Cynulliad Cenedlaethol Cymru | National Assembly for Wales

## 4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(vi) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y busnes a ganlyn:

## 5 Ôl-drafodaeth breifat

(10:30 - 11:00)

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

**Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu**
**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

**Nodyn briffio**
**12 Rhagfyr 2018**

ITV yw'r darlledwr teledu sy'n denu'r nifer mwyaf o wylwyr yn ystod oriau brig yng Nghymru, a Chaerdydd yw pedwerydd canolfan gynhyrchu fwyaf ITV ar ôl Llundain, Manceinion a Leeds. Mae ITV Cymru Wales, ynghyd â chwmnïau ITV Studios, Boom Cymru a Boomerang, yn cyflogi tua 400 o bobl yng Nghymru ac yn paratoi 800 awr o raglenni ar gyfer ITV Cymru Wales, rhwydwaith ITV, S4C, y BBC, Channel 4, Channel 5 ac eraill. Rydym yn falch o'n treftadaeth a'n cyfraniad at fywyd cenedlaethol yng Nghymru, ac rydym yn gweld cyfleoedd newydd i feithrin cynulleidfaoedd newydd ar gyfer cynnwys gwasanaeth cyhoeddus ar lwyfannau newydd wrth i dirwedd y cyfryngau barhau i esblygu.

**Uchafbwyntiau ITV Cymru Wales 2018**

- Y sianel a wylir amlaf yng Nghymru, gyda chyfran wylio yn ystod oriau brig o 23.5% hyd at 31 Awst, i fyny 1% mewn cymhariaeth â'r llynedd. Mae hyn yn cynrychioli 4 mlynedd o dwf yn olynol.

- Cyfran gynyddol yn gwylio Newyddion ar y Teledu: Cyrhaeddodd cyfran wylio *Wales at Six* 22% hyd at 31 Awst, sy'n gynnydd o 0.8% mewn cymhariaeth â'r llynedd. Mae hyn yn cynrychioli 7 mlynedd o dwf yn olynol hyd at 2016 ac eto yn 2018.

- Creu cynulleidfaoedd newydd ar lwyfannau newydd gyda chynnwys yn cael ei weld 16 miliwn o weithiau ar y cyfryngau cymdeithasol (hyd at 30 Medi).

- Adeiladu busnes cynhyrchu ar raddfa fawr, gyda thwf sylweddol yng nghomisiynau Rhwydwaith y Deyrnas Unedig.

## 1. Cyflwyniad

1.1. Mae ITV Cymru Wales yn cael blwyddyn lwyddiannus yn 2018. Mae cyfran y gynulleidfa ar gyfer ein sianel ddarlledu wedi tyfu i'n gwneud ni y sianel deledu a wylir amlaf yn ystod oriau brig yng Nghymru. Mae ITV hefyd wedi datblygu busnes cynhyrchu ar raddfa eang yng Nghymru. Mae'n darparu gwerth dros 500 o oriau o raglenni i ddarlledwyr yng Nghymru a'r Deyrnas Unedig. Ni yw'r unig ddarlledwr masnachol sydd ar gael yng Nghymru sy'n gwneud newyddion a rhaglenni ar faterion sy'n bwysig i bobl Cymru. Rydym yn parhau i chwarae rhan hanfodol ym mywyd Cymru: yn siapio diwylliant, yn tyfu brandiau Cymreig ac yn creu cynnwys newyddion dibynadwy, sy'n darparu dewis lluosog i wylwyr yng Nghymru ar draws llwyfannau. Mae'r cyfan ar gael yn rhad ac am ddim i wylwyr ac heb gost uniongyrchol i'r trethdalwr.

1.2. Mae ein brandiau allweddol ar yr awyr yn ffynnu. Mae *Wales at Six* unwaith eto wedi cynyddu cynulleidfaoedd ac yn aml dyma'r unig ffynhonnell newyddion am Gymru i rai gwylwyr.

1.3. Mae *Wales This Week* wedi ymchwilio i lawer o faterion o bwys i aelodau'r Cynulliad: o fywydau iach i bobl dros 50 oed, i effaith y fasnach gyffuriau 'Llinellau Sirol (County Lines)' fel y'i gelwir.

1.4. Mae *Coast & Country* yn rhoi sylw i gefn gwlad Cymru ac yn parhau i fod yn hynod boblogaidd. Mae *Sharp End* yn parhau i roi llwyfan ar gyfer trafodaeth wleidyddol a chraffu ar Aelodau Cynulliad ac Aelodau Seneddol.

1.5. Ar hyd 2018, bydd ITV Wales wedi cyflwyno 15 o gyfresi a rhaglenni gwahanol, yn aml fel rhan ganolog o amserlen ITV, gan adlewyrchu ehangder ac amrywiaeth bywyd Cymru. Mae'r rhain yn cynnwys *St Davids: Britain's Smallest City*; *The Strait* – a ffilmiwyd ar y Fenai - a *Dock of the Bay* a oedd yn rhoi sylw i gymunedau amrywiol ym Mae Caerdydd.

1.6. Rydym yn parhau i gyflawni ein gofynion o ran y drwydded i gynhyrchu o leiaf 286 awr o raglenni gwasanaeth cyhoeddus wedi eu gwneud yng Nghymru ar gyfer gwylwyr yng Nghymru. Ar gyfartaledd, bydd hyn yn darparu 4 awr o newyddion a 1.5 awr o raglenni eraill bob wythnos. Mae nifer yr oriau wedi aros yn sefydlog ers 2010. Cytunwyd ar delerau'r drwydded gyfredol, sy'n rhedeg hyd at 2024, gydag Ofcom yn 2013 fel cydbwysedd teg rhwng costau a manteision cynnal trwydded darlledu gwasanaeth cyhoeddus Cymru

1.7. Dros y degawd diwethaf, rydym wedi arloesi ac wedi addasu i fod yn gynhyrchydd masnachol ar raddfa eang, gan gryfhau ein busnes drwy arallgyfeirio refeniw i ffwrdd o hysbysebion teledu. Bellach mae gennym 4 label cynhyrchu: ITV Cymru Wales; Shiver Cymru; Boom Cymru a Boomerang.

1.8. Mae ITV Cymru Wales wedi parhau i arloesi gyda'r rhaglenni ar gyfer S4C. Mae *Y Byd yn ei Le,* a gyflwynir gan Guto Harri, yn rhoi persbectif newydd ar wleidyddiaeth Cymru tra bod cyfres newydd arall, *Ein Byd*, wedi cynnig ymagwedd gyfredol at faterion cyfoes.

1.9. Mae ein label cynhyrchu ar gyfer y rhwydwaith - Shiver Cymru – sy’n bartneriaeth rhwng ITV Cymru Wales a Chwmni ITV Studios, Shiver - wedi bod yn fodd o ddangos straeon o Gymru ledled y Deyrnas Unedig. At ei gilydd, comisiynwyd 7 cyfres wahanol yn y ddwy flynedd ddiwethaf gan deledu rhwydwaith ITV, gan roi portread a chynrychiolaeth gadarnhaol o fywydau pobl Cymru ar sgriniau ledled y Deyrnas Unedig.

1.10. Yn olaf, mae Boom Cymru a Boomerang, sy’n rhan o ITV Sudios ac sy'n cyflogi bron i 300 o bobl yng Nghymru, wedi cael cryn lwyddiant yn 2018, gan werthu 500+ awr o raglenni i rwydweithiau Cymru a'r Deyrnas Unedig.

## 2. Newyddion

2.1. Yn 2018 enillodd ein rhaglen newyddion gyda'r nos, *Wales at Six,* wobr y Rhaglen Newyddion a Materion Cyfoes Orau ar y Teledu, gwobr y Gohebydd Newyddion Teledu Gorau a'r Newyddiadurwr Arbenigol Gorau yng Ngwobrau Cyfryngau Cymru. Mae'r rhaglen wedi gwella ei sylw arbenigol, gan gyflwyno rolau Gohebydd Cenedlaethol a Gohebydd Brexit i ategu'r sylw arbenigol i iechyd, chwaraeon a gwleidyddiaeth.

2.2. Un cam arloesol cyffrous yn 2018 fu ehangu ein capasiti byw, gan alluogi darllediadau byw lluosog o wahanol leoliadau ledled Cymru o fewn yr un rhaglen, gan gynyddu ymgysylltiad â gwylwyr.

2.3. Rydym wedi cynnwys darllediadau byw helaeth o Sioe Frenhinol Cymru, yr Eisteddfod Genedlaethol, Gemau'r Gymanwlad ar yr Arfordir Aur a'r *Tour de France*. Rydym wedi ceisio gwneud defnydd llawn o'n partneriaeth gyda'r BBC i gadw Pencampwriaeth Rygbi'r Chwe Gwlad ar deledu daearol er mwyn gwneud y gorau o'n darllediadau newyddion o'r twrnamaint.

2.4. Rydym yn parhau i fuddsoddi mewn newyddiaduraeth wreiddiol, gyda rôl Cynhyrchydd Newyddiaduraeth Wreiddiol benodol yn cael ei chyflwyno sy'n ein galluogi i ymchwilio i straeon yng Nghymru nad oes neb arall yn eu hadrodd.

2.5. Rydym yn parhau i feithrin cynulleidfaoedd newydd sylweddol ar gyfer ein cynnwys newyddion ar lwyfannau cyfryngau cymdeithasol, gan gydweithio'n agos â'r tîm digidol yn ITV Network News i sicrhau bod y cynnwys gorau o Gymru yn cael cynulleidfa ledled y Deyrnas Unedig ac, yn wir, ar draws y byd. Er nad yw'n ofyniad yn ein trwydded ddarlledu, serch hynny, rydym yn uchelgeisiol wrth geisio parhau i wasanaethu ein cynulleidfa lle bynnag y bo'n ymarferol gwneud hynny o safbwynt masnachol.

## 3. Materion Cyfoes a rhaglenni eraill

3.1. Fel rhan o'n rhwymedigaethau trwydded, mae'n ofynnol i ni ddarlledu cyfanswm o 78 awr o raglenni 'nad ydynt yn newyddion', gyda hanner yn cael eu dangos yn ystod oriau brig. O'r 78 awr, mae'n rhaid i 41 awr fod yn faterion cyfoes. Rydym yn disgwyl y byddwn yn cyrraedd yr holl ofynion hyn, fel yr ydym wedi ei wneud ym mhob blwyddyn rydym wedi dal y drwydded.

3.2. O ran cyllid, nododd Ofcom yn ei adroddiad *Cyfryngau'r Genedl: Cymru* ym mis Gorffennaf eleni, "mae oriau gwreiddiol gan ITV Cymru Wales wedi aros yn sefydlog ers 2009." Nododd hefyd: "Roedd ITV Cymru Wales wedi gwario £6.1m ar gynnwys newydd yn y DU yn 2017 ac mae wedi cynnal y lefel hon o fuddsoddiad mewn termau real ers 2013."

3.3. Bydd *Wales This Week* yn darlledu 23 pennod - pob un yn ystod slotiau oriau brig am 8pm - ac yn aml rhwng penodau hynod boblogaidd o Coronation Street yn ystod 2018. Mae hyn yn rhoi cynnwys gwasanaeth cyhoeddus uchel ei ansawdd a dibynadwy wrth wraidd ein hamserlen. Mae uchafbwyntiau wedi cynnwys proffiliau o'r 3 ymgeisydd i fod yn Brif Weinidog nesaf Cymru; ffilm hynod deimladwy am bobl sy'n ymdopi â thlodi eithafol; ymchwiliad i gaethiwed i gyffuriau presgripsiwn; adroddiad ar yr heriau sy'n wynebu pobl o ran colli clyw; a'r ddadl dros derfynellau betio ods sefydlog.

3.4. Bydd *Coast & Country* hefyd yn cynhyrchu 23 o benodau eleni, gan gynnwys darllediad arbennig o'r Sioe Frenhinol. Caiff y cyfan eu darlledu fel rhan ganolog o amserlen ITV.

3.5. I danlinellu ein hymrwymiad i sylw o ddifrif a hygyrch i wleidyddiaeth Cymru, bydd *Sharp End* yn darlledu 36 pennod yn ystod 2018 gan gynnwys deg o raglenni 60 munud. Mae ein holl raglenni gwasanaeth cyhoeddus hefyd ar gael ar ein gwefan fideo ar alw www.itv.com/walesprogrammes

## 4. S4C

4.1. Mae gan ITV Cymru Wales draddodiad balch o gynhyrchu rhaglenni yn Gymraeg ar gyfer S4C. Yn 2018, fe wnaethom adfywio cyfres hirsefydlog ar gefn gwlad a lansio dwy gyfres newydd am faterion cyfoes.

4.2. Lansiodd *Ein Byd* ar S4C ym mis Ionawr, gydag ymchwiliad cudd i drefniadau 'rhent am ryw' sy'n manteisio ar fenywod yng Nghymru. Roedd uchafbwyntiau eraill yn cynnwys arferion 'helwyr pedoffiliaid' fel y'u gelwir, ac adroddiad arbennig o Las Vegas ar agweddau pobl Cymru at ddiwylliant gynau yn America. Mae *Ein Byd* wedi cael ei hail-gomisiynu ar gyfer ail gyfres.

4.3. Enynnodd *Y Byd yn ei Le* ganmoliaeth eang am ddod ag ymagwedd ffres a bywiog at adroddiadau gwleidyddol. Yn cael ei chyflwyno gan Guto Harri, mae'r gyfres yn cynnwys cyfweliadau manwl ar draws y sbectrwm gwleidyddol yng Nghymru a San Steffan. Mae'r gyfres hefyd yn cynnwys

'cymhorthfa stryd' wythnosol sy'n rhoi cyfle i'r cyhoedd holi eu cynrychiolwyr etholedig. Bydd trydedd cyfres yn cael ei darlledu yn gynnar yn 2019.

4.4. Cafodd dwy o gyfresi mwyaf hirsefydlog y sianel, *Y Byd ar Bedwar* a *Cefn Gwlad,* eu hadfywio gyda chyflwynwyr newydd i gynnal eu hapêl barhaol gyda gwylwyr.

4.5. Mae ymchwiliadau cudd *Y Byd ar Bedwar* wedi cynnwys ein newyddiadurwyr yn amlygu'r pwysau ar staff cwmni diogelwch i roi dirwyon sbwriel i'r cyhoedd a datgelu safonau gofal gwael i gleifion dementia mewn cartref gofal yng ngogledd Cymru.

4.6. Dychwelodd *Y Ditectif* am drydedd gyfres, gan roi sylw i rai o droseddau mwyaf drwg-enwog Cymru. Cynhyrchwyd y gyfres gefn yn gefn â fersiwn Saesneg ar gyfer ITV Cymru Wales, a fu'n boblogaidd iawn gyda gwylwyr. Mae gwaith ffilmio wedi dechrau hefyd ar gyfer cyfres arsylwadol newydd yn dilyn Heddlu Dyfed-Powys ac asiantaethau allweddol eraill wrth chwilio am bobl sydd ar goll.

## 5. Cymru ar rwydwaith ITV

5.1. Comisiynwyd cyfanswm o 7 cyfres gan gomisiynwyr rhwydwaith ITV gan wneuthurwyr rhaglenni yng Nghymru dros y ddwy flynedd ddiwethaf. Mae pob un wedi ei seilio ar haeddiant, gan adlewyrchu piblinell greadigol sy'n tyfu ar gyfer rhaglenni rhwydwaith llwyddiannus.

5.2. Roedd *The Strait* yn rhoi sylw i fywydau pobl sy'n byw ac yn gweithio o gwmpas y Fenai yng ngogledd Cymru, a darlledwyd y gyfres am y tro cyntaf ar ITV Cymru Wales ym mis Ionawr. Wedi ei pharatoi gan gynhyrchydd annibynnol o Gymru, Slam Media, cafodd ei chyd-gomisiynu gan ITV Cymru Wales a rhwydwaith ITV, gyda'r gyfres yn cael ei darlledu ar draws y Deyrnas Unedig ar ITV yn ystod yr hydref eleni. Cyflawnodd y gyfres ar y rhwydwaith gynulleidfa gyfun o fwy na 8 miliwn o wylwyr ar draws ei phedair pennod.

5.3. Erbyn hyn rydym yn gweithio gyda Slam Media i gynhyrchu dwy gyfres newydd - un ar Eryri ac un arall ar Bortmeirion, a fydd hefyd yn cael eu dangos ar rwydwaith ITV yn dilyn y darllediad cyntaf ar ITV Cymru Wales.

5.4. Yn ystod yr hydref eleni, fe wnaethom ddarlledu cyfres hynod boblogaidd yn ystod yr oriau brig a oedd yn canolbwyntio ar bobl sy'n byw ac yn gweithio yn Sir Benfro. Cafodd *St Davids: Britain's Smallest City* ei gwneud gan gwmni ITV Studios Boom Cymru ac Oxford Scientific Films. Fe'i cyd-gomisiynwyd hefyd i'w darlledu ar rwydwaith ITV.

5.5. Ymhlith y comisiynau rhwydwaith oriau brig yn y dyfodol mae *Harbour Cops*, cyfres chwe rhan yn edrych ar waith Heddlu Dyfed-Powys, a *Code Blue*, dwy ffilm awr o hyd ar Sgwad Troseddau

Difrifol Heddlu De Cymru. Mae'r naill a’r llall yn cael eu gwneud gan Shiver Cymru, un o'n labeli cynhyrchu rhwydwaith mewnol.

5.6. Mae'r holl raglenni hyn yn ychwanegu'n sylweddol at bortread a chynrychiolaeth bywyd mewn sawl rhan o Gymru i gynulleidfaoedd ledled y Deyrnas Unedig.

**6. Cwmnïau ITV Studios yng Nghymru**

6.1. Mae ITV yn gynhyrchydd ar raddfa fawr yng Nghymru erbyn hyn yn dilyn caffael y cwmnïau cynhyrchu Boom Cymru a Boomerang o Gaerdydd, a ddaeth yn rhan o ITV Studios yn 2015. Eleni byddant yn paratoi mwy na 500 awr o raglenni ar gyfer S4C ac amrywiaeth eang o ddarlledwyr eraill. Rhyngddynt, mae'r ddau gwmni’n cyflogi tua 300 o bobl yng Nghymru.

6.2. Mae cwsmeriaid Boom Cymru yn cynnwys S4C, ITV, BBC Cymru Wales a Channel 5. Mae genres allweddol yn cynnwys rhaglenni plant, adloniant, adloniant ffeithiol, ffeithiol a drama.

6.3. Mae Boom Cymru yn wneuthurwr blaenllaw o raglenni plant sy'n cyflwyno dros ddau gan awr o gynnwys y flwyddyn, gan gynnwys *Cyw,* sef brand cyn-oedran-ysgol S4C, a ddyfeisiwyd ac a grëwyd gan y cwmni. Mae arbenigedd Boom mewn cynnwys plant wedi arwain at greu nifer o fformatau llwyddiannus, gan gynnwys *Prosiect Z*, a enillodd Wobr Plant fawreddog Bafta ym mis Tachwedd 2018.

6.4. Mae Boom Cymru yn grëwr cynnwys o bwys ar gyfer *Hansh* - llwyfan digidol S4C – ac fe wnaeth gynhyrchu tua 80 awr o ddeunydd darlledu o’r Sioe Frenhinol. Cafodd ei raglenni 8 enwebiad Bafta Cymru yn 2018, gyda'r fformat adloniant ffeithiol *Y Salon* yn ennill gwobr Bafta Cymru a gwobr yn yr Ŵyl Cyfryngau Celtaidd.

6.5. Mae Boom Cymru yn gwneud dramâu - yn fwyaf nodedig y fformat cyfres droseddau *35 Diwrnod* sydd wedi cael ei werthu i ddarlledwyr yn Seland Newydd, Malaysia a Gwlad Pwyl. Mae'r fformat hefyd wedi cael ei gomisiynu gan Channel 5 i'w ddarlledu yn 2019.

6.6. Mae Boom Cymru yn cynnwys amrywiaeth o fusnesau cyfryngau arbenigol. Mae Gorilla, sy'n gwmni ôl-gynhyrchu blaenllaw, newydd ehangu i ail ganolfan yng Nghaerdydd. Mae Bait Studio yn gwmni effeithiau gweledol o’r radd flaenaf a fu’n gweithio’n ddiweddar ar y ffilm nodwedd uchel ei pharch ar Netflix, *Apostle,* ac mae'n cynorthwyo cyfresi fel *Casualty* ar y BBC yn rheolaidd. Mae Cloth Cat Animation yn mwynhau llwyddiant rhyngwladol gydag ail gyfres o *Luo Bao Bei* a gomisiynwyd yn Tsieina. Mae'n dilyn lansiad llwyddiannus y gyfres gyntaf yn Tsieina, Awstralia, y Deyrnas Unedig, Sbaen a nifer o wledydd eraill. Fe'i henwebwyd yn ddiweddar ar gyfer gwobr y Rhaglen Cyn-Oedran-Ysgol Orau yng Ngwobrau rhyngwladol Emmy Kids.

6.7. Mae'r label cynhyrchu, Boomerang, hefyd wedi cael llwyddiant yn 2018 gyda'i gyfres *Extreme Cake Makers* ar Channel 4, gan ennill gwobr Rhaglen Orau Darllediadau yn ystod y Dydd eleni yn y Gwobrau Darlledu.

6.8. Yn 2018 bydd Boomerang yn darparu bron i 57 awr o deledu i rwydweithiau allweddol y Deyrnas Unedig, gyda 18 awr yn rhagor wedi eu cadarnhau'n barod ar gyfer 2019.

6.9. Bydd ail gyfres o'r sioe deuluol *What Would Your Kid Do?* Yn cynnwys pennod arbennig ar gyfer y Nadolig. Lansiwyd y gyfres ar rwydwaith ITV ym mis Chwefror 2018, a bu'n boblogaidd gyda gwylwyr.

6.10. Mae *Extreme Cake Makers* yn mynd o nerth i nerth, gyda 60 pennod yn cael eu comisiynu gan Channel 4 yn 2018 gan gynnwys rhifyn arbennig ar gyfer y Briodas Frenhinol a rhifyn arbennig ar gyfer y Nadolig. Erbyn diwedd y bedwaredd gyfres, bydd Boomerang wedi cynhyrchu 105 pennod i'w darlledu yn y Deyrnas Unedig, ac mae'r gyfres wedi cael ei gwerthu i dros 60 o diriogaethau ledled y byd.

6.11. Cafodd y gyfres ddogfen *Sinkholes* ei hail-gomisiynu ar gyfer 12 rhan gan Channel 5 ar ôl i'r darllediad cyntaf o dair pennod fod yn boblogaidd iawn, gan ddenu 1.7 miliwn o wylwyr ar gyfer y sianel.

6.12. Parhaodd fformat *The World's Most Expensive...* Boomerang i ddenu cynulleidfaoedd mawr i Channel 4, gyda *The World's Most Extraordinary Christmas Dinner* yn rhoi sylw i baratoadau gofodwyr NASA a'r Llynges Frenhinol ar gyfer Nadolig oddi cartref.

6.13. Ers comisiynu cyfres gyntaf *Posh Pawn* y cwmni yn 2013, mae cynyrchiadau ffeithiol ac adloniant ffeithiol Boomerang wedi tyfu flwyddyn ar ôl blwyddyn, gan gadarnhau ei enw da am wneud rhaglenni o ansawdd uchel ar gyfer amrywiaeth eang o ddarlledwyr yn y Deyrnas Unedig.

## 7. Amlygrwydd

7.1. Mae amlygrwydd yn helpu i sicrhau bod gwasanaethau Darlledwyr Gwasanaeth Cyhoeddus yn hawdd eu canfod ac yn weladwy iawn. Mae hyn yn cynyddu'r nifer sy'n gwylio rhaglenni Darlledwyr Gwasanaeth Cyhoeddus, gan gynyddu'r gwerth cyhoeddus a ddarperir ganddynt. Mae gwasanaethau newyddion Darlledwyr Gwasanaeth Cyhoeddus sy'n cystadlu yn erbyn ei gilydd, er enghraifft, yn hawdd eu gweld ac yn hygyrch, gan helpu i gefnogi'r drafodaeth ddinesig sy'n sail i ddemocratiaeth. Mae cytundeb ITV i rwymedigaethau Darlledu Gwasanaeth Cyhoeddus sylweddol iawn - yn enwedig o ran newyddion - ac sy'n uwch na rhai darlledwyr masnachol yn unig, yn dibynnu'n fawr iawn ar werth y trwyddedau Darlledu Gwasanaeth Cyhoeddus sydd ym meddiant ITV. Darperir rhan o'r gwerth hwn gan warant amlygrwydd yn ogystal â sbectrwm teledu daearol

digidol wedi ei glustnodi.

7.2. Yn ystod yr haf mae Ofcom wedi bod yn ymgynghori ar gynigion i newid rheolau sy'n sicrhau y gellir dod o hyd i gynnwys darlledu gwasanaeth cyhoeddus yn haws yn y dirwedd ddigidol newydd. Dywed y bydd angen deddfwriaeth newydd i sicrhau bod yr amlygrwydd hwn yn cael ei gynnal ar y nifer o wahanol lwyfannau sydd bellach yn cael eu defnyddio gan wylwyr i gael mynediad at gynnwys. Mae'n bosibl na fydd setiau teledu clyfar, gwasanaethau fideo ar alw drwy danysgrifiad a llwyfannau eraill yn cynnig yr un amlygrwydd i gynnwys darlledu gwasanaeth cyhoeddus ag y mae canllawiau rhaglenni sydd eisoes yn bodoli yn ei gynnig.

7.3. Gallai'r newid yn nhirwedd y cyfryngau yng Nghymru olygu bod gwylwyr yng Nghymru yn llai tebygol o ddod o hyd i gynnwys darlledu gwasanaeth cyhoeddus a wnaed yng Nghymru, ar gyfer gwylwyr yng Nghymru. Nodir yn adroddiad *Cyfryngau'r Genedl: Cymru* Ofcom ar gyfer 2018:

- Yn 2017 treuliodd pobl yng Nghymru gyfartaledd o 3 awr 43 munud y diwrnod yn gwylio darllediadau teledu, a oedd 17 munud yn llai nag yn 2016. Roedd y gostyngiad hwn o 7.1% mewn oriau gwylio teledu yng Nghymru yn fwy na chyfartaledd y Deyrnas Unedig, sef 4.2%.
- Ar lefel o 50.4%, roedd gan lawer mwy o gartrefi yng Nghymru wasanaeth teledu lloeren yn Chwarter 1 2018 na chyfartaledd y Deyrnas Unedig (37.1%).
- Defnyddiodd traean (33%) o oedolion yng Nghymru wasanaethau ar alw a ffrydio drwy danysgrifio, fel Netflix ac Amazon.
- Roedd gan ddau o bob pump (42%) o aelwydydd oedd â theledu yng Nghymru deledu clyfar yn H1 2018 ac roedd y rhan fwyaf o'r rhain wedi eu cysylltu â gwasanaeth band eang y cartref (79%).
- Wrth ystyried pob math o gysylltedd â'r rhyngrwyd, gan gynnwys teledu clyfar sydd â chysylltiad â band eang, roedd mwy na hanner (52%) o deuluoedd sydd â theledu yng Nghymru wedi cysylltu eu set deledu â'r rhyngrwyd yn 2018.
- Ymysg y ffyrdd eraill y mae pobl yng Nghymru wedi cysylltu eu teledu â'r rhyngrwyd, mae: consolau gemau (26%); gliniaduron / cyfrifiaduron bwrdd gwaith (15%), a theclynnau cof bach sy'n cysylltu â'r rhyngrwyd neu flychau pen-setiau teledu (fel blwch setiau teledu NOW TV, Roku, Google Chromecast, teclyn USB Amazon Fire, Amazon Fire TV, Apple TV) (13%).

7.4. Mae'r ffigurau hyn yn dangos rhai o'r heriau sy'n wynebu darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yng Nghymru. Maent yn esbonio pam rydym ni a'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus eraill yn galw ar lywodraeth y Deyrnas Unedig i foderneiddio'r rheolau sy'n helpu i sicrhau amlygrwydd i wasanaethau llinellol darlledu gwasanaeth cyhoeddus a gwasanaethau ar alw cysylltiedig, fel BBC iPlayer, ITV Hub, STV Player, All 4, My5, ac S4C Clic, i sicrhau eu bod yn addas i'r diben wrth i arferion gwylio newid. Ym mha le bynnag rydych chi'n gwylio, pa bynnag ddyfais rydych chi'n ei defnyddio i wylio, na phwy sy'n darparu eich gwasanaeth teledu, credwn y dylai pobl bob amser allu dod o hyd i wasanaethau a rhaglenni darlledu gwasanaeth cyhoeddus yn hawdd yn y Deyrnas Unedig

## 8. Amrywiaeth

8.1. Rydym yn gweithredu amrywiaeth eang o fentrau i wella amrywiaeth ein rhaglen newyddion i sicrhau ei bod yn adlewyrchu'r gynulleidfa a'r cymunedau y mae'n eu gwasanaethu.

8.2. Ym mis Medi 2018, er enghraifft, llwyddodd ein rhaglen newyddion 6pm i gyrraedd cydbwysedd 50-50 rhwng ymddangosiadau gan ddynion a menywod, gyda chanran y menywod ddim is na 45% ers mis Chwefror 2018.

8.3. Rydym yn parhau i wella cynrychiolaeth cymunedau Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig, sydd ar hyn o bryd yn 6.2% ar draws ein rhaglenni newyddion. Mae hyn yn cymharu â 4.4% fel canran poblogaeth BAME Cymru gyfan, yn ôl cyfrifiad 2011.

8.4. Rydym yn parhau i greu llwybrau newydd i ymuno ag ITV, yn enwedig o gymunedau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol. Yn 2018, ehangodd ITV Cymru Wales ei dîm o brentisiaid i bedwar aelod. Bydd pob un ohonynt yn astudio ar gyfer Prentisiaeth Cyfryngau Creadigol a Digidol. Mae prentisiaid blaenorol wedi mynd ymlaen i gael swyddi llawn amser gydag ITV Cymru Wales.

8.5. Yn 2018, dyfarnwyd mai ni oedd Cyflogwr y Flwyddyn yng Ngwobrau'r Gynghrair Sgiliau Ansawdd. Dywedodd y beirniaid: *'Mae'r ffocws yn amlwg ar ddatblygiad personol eu prentisiaid fel unigolion, ac mae pob un yn cael arweiniad a mentora gan staff sydd â degawdau o brofiad. Mae ymrwymiad parhaus ITV i brentisiaethau yn ei wneud yn enillydd teilwng o'r wobr hon.*" Yn ddiweddar, rydym hefyd wedi ennill Gwobr Aur yng Ngwobrau Partner Gwerthfawr Gyrfa Cymru i gydnabod ein gwaith yn hysbysu, ysbrydoli a chymell pobl ifanc yng Nghymru o ran eu cyfleoedd gyrfa.

8.6. Yn ogystal, rydym wedi gweithio gydag S4C i recriwtio dau newyddiadurwr ifanc i wneud adroddiadau materion cyfoes yn benodol ar gyfer gwasanaeth digidol S4C, *Hansh: Dan Sylw*. Mae'n sicrhau ein bod ni'n helpu i hyfforddi'r genhedlaeth nesaf o newyddiadurwyr Cymraeg i greu cynnwys ar gyfer llwyfannau presennol ac yn y dyfodol. Rydym yn cymryd rhan yn y fenter 'Breaking into News' gyda'r *Media Trust*. Mae cystadleuwyr a gyrhaeddodd y rownd derfynol yn y gorffennol wedi mynd ymlaen i gael swyddi yn ein hystafell newyddion.

8.7. Mae ein cwmnïau ITV Studios hefyd wedi ymrwymo i gynnal gweithlu amrywiol. Er enghraifft, mae Boomerang yn gweithio'n agos gyda Think Bigger a Channel 4 ar ei amrywiaeth a'i hyfforddiant. Ar hyn o bryd mae ganddo Ymchwilydd Amrywiaeth dan Hyfforddiant ar gontract blwyddyn drwy Gynllun Hyfforddeion Cynhyrchu 2018 Channel 4. Dyma'r pedwerydd cynllun o'r fath y bu'n ymwneud ag ef.

8.8. Mewn mannau eraill, ITV Cymru Wales yw partner cyfryngau y sefydliad cydraddoldeb

Chwarae Teg ar gyfer eu gwobrau Womenspire yn 2019. Mae'r elusen wedi gweithio ers 1992 i sicrhau bod menywod ledled Cymru yn gallu mynd i'r gweithle, datblygu eu medrau a meithrin gyrfaoedd gwerth chweil. Byddwn yn helpu i lansio'r broses o chwilio am enwebiadau ym mis Ionawr.

8.9. Roedd gennym bresenoldeb sylweddol yng Ngorymdaith Pride Cymru yng Nghaerdydd, a darparwyd adroddiadau helaeth ar yr awyr ac ar-lein gennym.

**9. Casgliad**

9.1. Mae cwmnïau ITV Cymru Wales ac ITV Studios yng Nghymru yn gwneud buddsoddiadau sylweddol sy'n cyfrannu'n fawr at fywyd y genedl. Fel yr unig ddarlledwr teledu gwasanaeth cyhoeddus sy’n cael ei gyllido’n fasnachol yng Nghymru, rydym yn cynhyrchu cynnwys o ansawdd uchel sy'n dod â hanesion a materion sy'n wynebu pobl Cymru yn fyw. Rydym yn cynnig lluosogrwydd i wylwyr a chystadleuaeth effeithiol i sefydliadau eraill yn y cyfryngau yng Nghymru. Ond rydym yn gweithredu mewn amgylchedd sy'n newid yn gyflym lle’r ydym yn wynebu rheoliadau anodd o ran yr hyn y gellir ei hysbysebu ar deledu y Deyrnas Unedig ar adeg pan fo cystadleuaeth gan gwmnïau cynnwys ar-lein byd-eang yn tyfu heb unrhyw rwymedigaeth arnynt ac ychydig iawn o gyfyngiadau o ran sut maent yn gweithredu. Yn sicr, nid oes unrhyw rwymedigaeth i ddarparu cynnwys penodol i Gymru. O gofio'r sefyllfa hon, croesawn gefnogaeth aelodau Cynulliad Cenedlaethol Cymru i helpu i gynnal amgylchedd polisi lle gall darlledu gwasanaeth cyhoeddus wedi ei gyllido’n fasnachol ffynnu.

Jon Heasman
Ofcom
Riverside House
2A Southwark Bridge Road
London SE1 9HA

(By e-mail to: localness@ofcom.org.uk)

04 December 2018

Dear Mr Heasman

**FURTHER CONSULTATION: LOCALNESS ON COMMERCIAL RADIO**

I am writing on behalf of the Culture, Welsh Language and Communications Committee of the National Assembly for Wales.

I wrote to you on 30 July about Ofcom's proposed relaxation of the localness guidelines for local commercial radio stations. I am now responding to your consultation on revised 'approved areas' for Wales, which Ofcom has proposed in light of the responses to the original consultation.

As I explained in our previous response, reducing the number of approved areas is in our view likely to have a detrimental impact on some communities and lead to a greater centralisation of production. We are particularly concerned that if production moves out of rural, Welsh-speaking areas it could have a detrimental impact on the volume of Welsh language content: a matter of considerable concern for Welsh-speaking audiences who are already inadequately served by the commercial radio market.

The changes that are now proposed go some way to addressing our concerns but our fundamental point remains in relation to the proposed reduction of approved areas in South Wales from two to one.

We continue to have concerns that as well as the economic and social impact of job losses, removing the boundary between South East and South West Wales could potentially reduce the extent to which radio stations are embedded in – and reflect – the areas to which they broadcast, leading to a further homogenisation of content. The proposed removal of the boundary between South East and South West Wales (which contains very significant Welsh-speaking areas) continues to be a cause for concern that Welsh-speaking audiences will lose out.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddDGCh@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/SeneddDGCh
0300 200 6565

National Assembly for Wales
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddCWLC@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddCWLC
0300 200 6565

Given our concerns the Committee believes that there should continue to be three approved areas for Wales, broadly along current boundaries.

Can I apologise that this response is slightly outside your consultation window. However, I am sure you will want to take the Committee's views fully into account before making a final decision.

Yours sincerely

Bethan Sayed.

**Bethan Sayed AM**
Chair

Meri Huws
Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner





Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner

Bethan Sayed AC
Cadeirydd
Y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu

3/12/2018

Annwyl Bethan

**Rhagor o wybodaeth am waith y Comisiynydd**

Diolch am eich llythyr diweddar yn dilyn fy ymddangosiad o flaen y Pwyllgor ym mis Hydref ac am eich geiriau caredig am waith fy swyddfa.

Roeddech chi'n dymuno rhagor o wybodaeth am dri phwnc penodol, sef cyllid blynyddol; safonau'r Gymraeg; a darpariaeth addysg Gymraeg yn y blynyddoedd cynnar. Fe wnaf ddelio â'r pynciau fesul un.

**Cyllid Blynyddol**

Cyn ateb y cwestiwn am lefel a defnydd y gronfa wrth gefn, hoffwn gychwyn drwy gynnig ychydig o gefnir a chyd-destun.

Ym mis Hydref 2014 ymddangosais gerbron Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y Cynulliad fel rhan o waith y pwyllgor i graffu ar gyfrifon 2013-14. Un o'r materion dan sylw gan y pwyllgor mewn perthynas â nifer o sefydliadau cyhoeddus oedd lefel y gronfa wrth gefn.

Wrth roi tystiolaeth i'r pwyllgor nodais gallai costau cyfreithiol sylweddol godi wrth i'r sefydliad arfer ei swyddogaethau newydd, ac hefyd bod angen gadw rhywfaint wrth gefn ar gyfer gwariant anrhagweledig. Dywedais wrth y pwyllgor byddai gadw cronfa wrth gefn rhwng £200,000 a £250,000 yn rhesymol.

Mae'r cyfrifon blynyddol 17/18 yn datgan gwerth statudol y gronfa wrth gefn o £501,000. Wrth gynllunio mae angen i mi ystyried effaith trafodion sydd wedi eu talu mewn arian

Comisiynydd y Gymraeg
Siambrau'r Farchnad
5–7 Heol Eglwys Fair
Caerdydd CF10 1AT

0345 6033 221
post@comisiynyddygymraeg.cymru
Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg

comisiynyddygymraeg.cymru

Welsh Language Commissioner
Market Chambers
5–7 St Mary Street
Cardiff CF10 1AT

0345 6033 221
post@welshlanguagecommissioner.wales
Correspondence welcomed in Welsh and English

welshlanguagecommissioner.wales

parod lle nad ydynt wedi eu cyfrifo drwy'r cyfrif incwm a gwariant ar ddiwedd y flwyddyn ariannol. Y tair prif elfen yw:

- Dibrisio asedau sefydlog y sefydliad lawr i werth net o £0 (£84,000)
- Cyfrif cost cytundebau lle mae elfen o'r gost yn berthnasol i flwyddyn ariannol 2018-19 (£63,000)
- Cydnabod incwm ar is-les lle mae elfen o'r incwm yn berthnasol i flwyddyn ariannol 2018-19 (£20,000)

Effaith net y tair elfen uchod yw lleihau lefel gwaelodol y gronfa wrth gefn i £374,000 ar ddiwedd 2017-18 mae hyn yn uwch na'r £250,000 cynllunnir ei chadw yn arferol. Datgelir yn Adroddiad Blynyddol 2017-18 bod cyllideb fewnol 2018-19 yn cynllunio ar gyfer gorwariant o £82,000. Ers cyhoeddi'r Adroddiad Blynyddol cyflwynwyd Amcangyfrif 2019-20 i Weinidogion Cymru, sydd yn gwneud cais am gyllideb ar gyfer y blynyddoedd nesaf. Mae'r rhagolwg gwariant diweddaraf yn tybio gorwariant o £167,000 ar gyfer 2018-19 byddai'n arwain at cronfa wrth gefn o £238,000 ar diwedd y flwyddyn ariannol. Mae'n benderfyniad strategol gennym ni i wario uwchlaw y gyllideb a dderbyniwyd gan Lywodraeth Cymru er mwyn erydu'r gronfa wrth gefn i lefel resymol.

Rwyf wedi cynnwys copi o Amcangyfrif 2019-20 at eich sylw er mwyn i'r pwyllgor gael gwybodaeth bellach mewn perthynas â chynlluniau'r sefydliad dros y tymor canolig, y gofynion cyllido ac effaith peidio â derbyn cyllid ychwanegol. Ceir gwybodaeth pellach am y Cynlluniau yn yr Amcangyfrif.

Cyflwynwyd 3 opsiwn i Weinidogion Cymru fel a ganlyn:

| | | Gwariant 2019-20 £000 | Cyllido 2019-20 £000 |
|---|---|---|---|
| **Cynllun A** | Prosiectau ychwanegol a chyflogi 47 swydd | 3,825 | 3,798 |
| **Cynllun B** | Prosiectau ychwanegol | 3,568 | 3,541 |
| **Cynllun C** | Parhau i weithredu fel yn flaenorol | 3,240 | 3,168 |

Ar ddiwedd fy nghyfnod fel Comisiynydd y Gymraeg felly rwyf yn rhagweld cronfa wrth gefn o £238,000 sydd yn gyson â'r lefel cynaliadwy rwyf wedi ei nodi dros nifer o flynyddoedd yn yr Adroddiad Blynyddol. Er hynny, dros y cyfnod canolig, mae risgiau dwys i allu'r sefydliad i fwy o fewn y gyllideb presennol a pharhau i weithredu.

Gofynnoch hefyd am effaith hyn ar nifer staff a'n gallu i gyflawni swyddogaethau. Nodaf mai 42.6 swyddog cywerth y pen bydd yn gyflogedig ar 01/04/2019, mae hyn tua 10% yn llai na'r adnoddau staff yn y strwythur llawn. Hefyd, nid oes capasiti o fewn y lefel cyllido presennol i gyflogi swyddogion dros dro pan fo swyddog ar gyfnod mamolaeth. Yn olaf rwyf wedi derbyn hysbysiad o gynnydd i gyfraniadau'r cyflogwr i Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil, bydd hyn yn cynyddu costau cyflogaeth £117,000 fel lleiafswm a nid oes capasiti o fewn y gyllideb bresennol i ysgwyddo'r baich ychwanegol hwn.

Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner

Mae'r ffactorau hyn yn rhoi pwysau cynyddol ar y gallu i gyflogi nifer digonol o swyddogion i gyflawni swyddogaethau a dyletswyddau'r sefydliad.

Mewn perthynas â chostau gweinyddol rhedeg y sefydliad, dros y blynyddoedd mae camau cadarn wedi eu cymryd i leihau costau er mwyn arbed arian. I'w gymharu â blynyddoedd 2013-14 a 2014-15 lle roedd y gwariant ar gyfartaledd yn £965,000, mae rhagolwg y gwariant ar gyfer 2018-19 yn £717,000 sydd yn arbediad o 26%. Nid oes llawer o gyfleoedd pellach i arbed arian heb gael effaith niweidiol ar allu'r sefydliad i weithredu'n effeithiol.

Mae lefel gwariant ar raglenni a phrosiectau wedi lleihau dros fy nghyfnod fel Comisiynydd wrth i'r lefel cyllido gan Weinidogion Cymru leihau. Ym mlynyddoedd 2013-14 a 2014-15 roedd y gwariant tua £440,000 y flwyddyn ar gyfartaledd. Yn y tair mlynedd nesaf hyd 2017-18 roedd gostyngiad yn y gwariant i tua £240,000 y flwyddyn. Rhagolwg y gwariant ar gyfer 2018-19 yw £193,000 ac mae'r Amcangyfrif yn rhagweld gwariant o £140,000 dan Gynllun C. Mae gwariant ar raglenni yn cael ei ariannu drwy erydiad y gronfa wrth gefn a gwnaed penderfyniad strategol i wario uwchlaw'r gyllideb a gafwyd gan Lywodraeth Cymru.

Fel y gweler ym mharagraff 2.15 o'r Amcangyfrif, hyd yn oed oes yw Gweinidogion Cymru yn ariannu'r costau pensiwn ychwanegol, dros y ddwy flynedd nesaf bydd gwariant yn erydu'r gronfa wrth gefn i lefel is na'r hyn fyddai'n ddymunol. Heb gyllid ychwanegol mae'n anochel bydd risg i allu'r Comisiynydd newydd i gyflawni ei swyddogaethau a'i ddyletswyddau llawn; wrth i adnoddau swyddogion fod yn llai na'r strwythur llawn, a'r arian sydd ar gael i gyflawni rhaglenni a phrosiectau pwysig gael ei gyfyngu ymhellach.

**Safonau'r Gymraeg**

Fe ofynnoch am wybodaeth am ymchwiliadau safonau, sef y cam cychwynnol o fapio pa fath o safonau ddylid eu gosod ar sectorau cyn i'r Llywodraeth greu rheoliadau safonau. Nid oes unrhyw sefydliad yn destun ymchwiliad safonau ar hyn o bryd. Er hynny, mae ymchwiliadau safonau wedi'u cynnal i nifer o sefydliadau sydd eu cynnwys mewn rheoliadau safonau hyd yma. Mae 4 cylch o ymchwiliadau safonau wedi'u cynnal ac mae'r manylion fel a ganlyn gyda chadarnhad o pa reoliadau (os o gwbl) sydd yn berthnasol i'r sefydliadau o fewn pob un:

| **Cylch yr ymchwiliad safonau** | **Cylch 1** | **Cylch 2** | **Cylch 3** | **Cylch 4** |
|---|---|---|---|---|
| **Nifer y sefydliadau** | 26 | 119 | 64 | 318 |
| **Math o sefydliadau** | Awdurdodau lleol, Gweinidogion | Nifer o sefydliadau cyhoeddus | Darparwyr tai cymdeithasol, adrannau | Cyflenwyr nwy a thrydan, gwasanaethau |

Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | Cymru, Parciau Cenedlaethol | cyffredinol megis Amgueddfa Cymru, Comisiynydd Plant a Phobl Hŷn, byrddau iechyd, colegau a phrifysgolion | Llywodraeth y DU, cwmnïau dŵr, Grŵp y Post Brenhinol a'r Swyddfa Bost | rheilffyrdd a chwmnïau bysiau |
| **Pryd cynhaliwyd yr ymchwiliad safonau** | Ionawr – Mawrth 2014 | Tachwedd 2014 – Chwefror 2015 | Mai – Awst 2015 | Amserlen graddol: Mawrth – Mehefin 2016 Gorffennaf – Hydref 2016 Awst – Tachwedd 2016 |
| **Cyhoeddi'r adroddiad ymchwiliad safonau** | Mai 2014 | Mai 2015 | Hydref a Tachwedd 2015 | Tachwedd 2016 a Chwefror 2017 |
| **Mewn rheoliadau?** | Pob un o fewn:<br>○ Rheoliadau Rhif 1 | Nifer o fewn:<br>○ Rheoliadau Rhif 2<br>○ Rheoliadau Rhif 4<br>○ Rheoliadau Rhif 5<br>○ Rheoliadau Rhif 6<br>○ Rheoliadau Rhif 7<br><br>Rhai o'r sefydliadau yn weddill ddim o fewn rheoliadau, e.e. rheoleiddwyr proffesiynau iechyd | Na | Na |

Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner

Fe ofynnoch hefyd am wybodaeth am sefydliadau y mae Gweinidogion Cymru yn bwriadu eu cynnwys mewn rheoliadau drafft, neu sefydliadau y mae Gweinidogion Cymru wedi ymgynghori â hwy ar reoliadau drafft.

Ym Mehefin 2018, gwnaeth Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes, Eluned Morgan, ddatganiad oedd yn cadarnhau na fydd rhagor o safonau yn cael eu cyflwyno hyd nes y bydd Bil newydd i'r Gymraeg yn weithredol. Cadarnhaodd hefyd bod hynny yn golygu na fydd yn ychwanegu sefydliadau i reoliadau a basiwyd eisoes chwaith.

Fy nealltwriaeth felly yw nad yw Gweinidogion Cymru yn bwriadu cynnwys unrhyw sefydliad mewn rheoliadau drafft hyd nes y bydd Bil newydd i'r Gymraeg yn weithredol. Fel y gwyddoch, nid oes amserlen wedi'i chyhoeddi ar gyfer pryd y bydd hynny yn debygol eto.

Mae Gweinidogion Cymru eisoes wedi ymgynghori ar reoliadau drafft gyda'r rheoleiddwyr proffesiynau iechyd a'r cwmnïau dŵr. Mae'r Comisiynydd yn deall bod Gweinidogion Cymru wedi gohebu gyda'r sefydliadau hyn i egluro na fydd rheoliadau terfynol yn cael eu cyflwyno ar eu cyfer am y tro am y rhesymau a nodwyd uchod.

Gofynnoch i mi hefyd ddarparu gwybodaeth am sefydliadau mae fy swyddfa yn y broses o gyflwyno hysbysiad cydymffurfio iddynt. Rydym ar hyn o bryd wrthi'n cyflwyno hysbysiadau cydymffurfio i'r 18 sefydliad canlynol a enwir yn Rheoliadau Rhif 7:

1. Bwrdd Iechyd Addysgu Powys
2. Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan
3. Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf
4. Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg
5. Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
6. Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro
7. Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda
8. Bwrdd Cynghorau Iechyd Cymuned Cymru
9. Cyngor Iechyd Cymuned Abertawe Bro Morgannwg
10. Cyngor Iechyd Cymuned Aneurin Bevan
11. Cyngor Iechyd Cymuned Betsi Cadwaladr
12. Cyngor Iechyd Cymuned Powys
13. Cyngor Iechyd Cymuned Caerdydd a'r Fro
14. Cyngor Iechyd Cymuned Cwm Taf
15. Cyngor Iechyd Cymuned Hywel Dda
16. Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru
17. Ymddiriedolaeth GIG Felindre
18. Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru

Hefyd, mae Rheoliadau Rhif 7 yn gwneud darpariaeth ar gyfer ychwanegu Gofal Cymdeithasol Cymru i Reoliadau Rhif 4. Rydym felly yn y broses o gyflwyno hysbysiad cydymffurfio iddynt hwy gan ddilyn yr un amserlen.

Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner

Dyma ddarparu trosolwg o'r amserlen ar gyfer cyflwyno'r hysbysiadau gan gynnwys y camau sydd eisoes wedi cymryd lle a'r camau sydd i ddod:

| | |
|---|---|
| **Mawrth 2018** | Cynulliad yn cymeradwyo'r Rheoliadau. |
| **Mai 2018** | Comisiynydd yn cynnal sesiynau briffio i'r holl sefydliadau. |
| **Mehefin 2018** | Rheoliadau yn dod i rym a'r Comisiynydd yn cynnal cyfarfodydd unigol gyda phob un o'r sefydliadau. |
| **18 Gorffennaf - 10 Hydref 2018** | Ymgynghori ar hysbysiad cydymffurfio drafft am gyfnod o 12 wythnos. |
| **Hydref - Tachwedd 2018** | Ystyried ymatebion a pharatoi hysbysiadau cydymffurfio drafft. |
| **Tachwedd 2018** | Anelu at ddyroddi hysbysiadau cydymffurfio terfynol erbyn diwedd Tachwedd. |
| **Diwedd Mai 2019** | 6 mis o'r ddyddiad dyroddi'r hysbysiadau cydymffurfio bydd y diwrnod gosod cynharaf yn dod i rym. Dyma hefyd pryd fydd y Cynllun Iaith Gymraeg presennol yn peidio bod yn weithredol. |

Yn olaf ar y pwnc hwn, fe ofynnoch chi i mi egluro wrth y Pwyllgor, gan ystyried y sefydliadau hynny nad ydynt yn ddarostyngedig i'r safonau ar hyn o bryd, beth yw effaith hyn i siaradwyr Cymraeg yng Nghymru.

Mae nifer o sefydliadau yn parhau i fod yn ddarostyngedig i gynlluniau iaith Gymraeg, yn hytrach na'r safonau. Gall hynny fod am nad ydynt wedi cael eu henwi mewn rheoliadau safonau eto neu am nad ydynt yn gallu, yn gyfreithiol, dod o dan y safonau ar hyn o bryd.

Mae enghreifftiau o sefydliadau sydd yn disgwyl am reoliadau wedi'u nodi o fewn y tabl mewn ymateb i'r cwestiwn cyntaf am safonau. Mae rhai sefydliadau eraill na ellir gosod safonau arnynt ar hyn o bryd ac yr enghraifft amlycaf yw Gweinidogion y Goron.

Mae manteision amlwg i'r cyhoedd dros gael sefydliad yn gweithredu safonau o'i gymharu â chynllun iaith Gymraeg. Ymysg y manteision hynny y mae'r canlynol:

- Mae'r pwerau gorfodi sydd gan y Comisiynydd i orfodi'r safonau yn arwain at roi hawliau i'r cyhoedd ac i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg mewn sefyllfaoedd penodol.
- Mae hynny'n rhoi gwell sicrwydd i ddefnyddwyr y Gymraeg ynghylch eu hawl i ddefnyddio'r Gymraeg ac mae ganddynt yr hawl i gwyno yn syth i'r Comisiynydd am amheuaeth o fethiant.
- Mae bodolaeth Tribiwnlys y Gymraeg yn gwarchod yr hawliau hynny ymhellach gan bod modd i achwynydd ofyn am adolygiad o benderfyniad y Comisiynydd mewn rhai amgylchiadau.

Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner

- Er bod hawl i gwyno am fethiant i gydymffurfio â darpariaeth o fewn cynllun iaith Gymraeg, nid oes gan y Comisiynydd bwerau gorfodi yn y cyswllt hwn dim ond y gallu i wneud argymhellion.
- Un o fanteision safonau manwl yw bod hynny yn rhoi gwell eglurder i'r cyhoedd o ran beth y gallant ddisgwyl eu derbyn yn Gymraeg o'i gymharu â chynlluniau iaith Gymraeg sydd yn aml yn cynnwys ymrwymiadau eang.
- Mae'r safonau wedi'u cyhoeddi mewn rheoliadau sydd yn berthnasol i sectorau cyfan ac mae pob set yn debyg iawn i'w gilydd. Golyga hynny bod mwy o gysondeb o fewn y gwasanaethau a ddarperir gan sefydliadau sy'n gweithredu safonau o'i gymharu â sefydliadau sy'n gweithredu cynlluniau iaith Gymraeg gan bod y rheiny yn cael eu cytuno ar sail unigol yn unig ac yn dibynnu ar sefydliad i ymrwymo i ddarpariaeth.
- Mae fy adroddiad sicrwydd diweddaraf (a oedd yn destun trafodaeth yn y Pwyllgor ar 4 Hydref) wedi dangos bod tystiolaeth ddigamsyniol erbyn hyn fod safonau wedi arwain at wella gwasanaethau Cymraeg.

Ymhellach i hynny, mae rhai sefydliadau sydd wedi bod yn destun ymchwiliad safonau nad oes ganddynt gynllun iaith ychwaith. Mae rhai cyrff eraill, fel Cymwysterau Cymru, wedi eu sefydlu ers i'r gyfundrefn safonau ddod i rym. Nid yw'r Llywodraeth am eu cynnwys mewn rheoliadau safonau ar hyn o bryd, felly rydym yn gweithio ar gynllun iaith gyda'r cyrff hyn.

**Darpariaeth addysg Gymraeg yn y blynyddoedd cynnar**

Mae'r Llywodraeth wedi ymateb i argymhellion fy nodyn briffio ar ddarpariaeth gofal plant ac addysg blynyddoedd cynnar cyfrwng Cymraeg. Er hyn, mae'r gwaith o gyflwyno'r cynnig 30 awr ac o ddiwygio fframwaith y Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg (CSGA) yn parhau, ac felly mae'n anodd asesu'r graddau mae'r Llywodraeth wedi ymateb a gweithredu'r argymhellion yn llawn.

Roedd y nodyn briffio yn cynnwys 3 phrif argymhelliad.

1. Bod angen i Lywodraeth Cymru osod ystyriaethau am yr iaith Gymraeg a'i gweledigaeth ar gyfer 2050 yng nghanol y broses o gynllunio, ariannu a gweithredu ei chynlluniau gofal plant ac addysg blynyddoedd cynnar.

2. Y dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg (CSGAau) yn datblygu fel fframwaith effeithiol ar gyfer sicrhau twf yn y sector gofal plant cyfrwng Cymraeg

3. Bod angen i Lywodraeth Cymru arwain y gwaith o ddiwygio'r dulliau o gasglu a rhannu data am ofal plant.

Mae'r data a gyhoeddwyd yn ein nodyn briffio yn dangos mai dim ond 13% o ddarpariaeth gofal plant Cymru sydd ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg (gweler atodiad 1 a 2). O ystyried

Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner

bod tua 22% o blant Cymru yn mynychu addysg gynradd cyfrwng Cymraeg, mae'n amlwg bod angen newid radical er mwyn i'r sector gofal plant ddal i fyny â'r sector addysg statudol. Mae'r ymrwymiad i agor 150 cylch meithrin newydd dros y ddegawd nesaf, a'r penderfyniad i fuddsoddi £13 miliwn o'r Grant Cyfalaf y Cynnig Gofal Plant mewn darpariaethau gofal plant cyfrwng Cymraeg, yn gamau pwysig ac arwyddocaol. Er hyn, nid yw'r cynlluniau hyn, ar ben eu hunain, am drawsnewid y tirwedd gofal plant o safbwynt y Gymraeg. Rwyf felly o'r farn bod angen gwneud llawer mwy, er mwyn sbarduno'r newidiadau pellgyrhaeddol sydd eu hangen ar y sector er mwyn gwireddu gweledigaeth Cymraeg 2050.

Ers cyhoeddi'r nodyn briffio, rwyf i a fy swyddogion wedi cael cyfarfodydd adeiladol gyda'r Gweinidog Plant, Pobl Hŷn a Gofal Cymdeithasol a'r gweision sifil perthnasol. Yn ystod y cyfarfodydd hyn, rydym wedi trafod ein hargymhellion mewn mwy o fanylder, ac wedi derbyn rhagor o wybodaeth am gynlluniau'r Llywodraeth. Mae'r cyfarfodydd hyn wedi amlygu'r cyfleoedd sy'n bodoli i siapio'r 'cynnig 30 awr' mewn ffordd fydd yn arwain at dwf sylweddol mewn darpariaeth gofal plant cyfrwng Cymraeg.

Roedd ail argymhelliad y nodyn briffio yn amlygu potensial y CSGAau fel fframwaith ar gyfer cynllunio mwy hir dymor i sicrhau twf yn y niferoedd sy'n derbyn gofal plant ac addysg blynyddoedd cynnar cyfrwng Cymraeg. Fel amryw o randdeiliaid eraill, rwyf yn grediniol bod angen canolbwyntio ar y sector hwn fel cychwyn y daith addysg cyfrwng Cymraeg. Mae Aled Roberts wedi'i benodi i arwain y bwrdd fydd yn gyfrifol am ddiwygio'r fframwaith CSGAau. Rydym wedi cyflwyno tystiolaeth i'r bwrdd cynghori, ac wedi cael cyfarfodydd adeiladol gyda Aled Roberts ynglŷn â'r ffordd ymlaen. Rwyf yn obeithiol y bydd gwaith y bwrdd hwn yn arwain at newidiadau arwyddocaol i'r fframwaith cynllunio addysg cyfrwng Cymraeg, ac y bydd y sector gofal plant yn rhan greiddiol o hynny.

Roedd trydydd argymhelliad y nodyn briffio yn pwysleisio'r angen am ddata dilys a dibynadwy ynglŷn â'r sector gofal plant. Fel mae'r nodyn briffio yn amlygu, mae problemau sylfaenol yn ansawdd a dibynadwyedd y data ar hyn o bryd. Heb wella ansawdd y data hwn, mae'n anodd gweld sut gellid mesur cynnydd mewn ffordd ystyrlon. Rydym wedi trafod y problemau hyn yn ystod ein cyfarfodydd gyda'r Gweinidog Plant, Pobl Hŷn a Gofal Cymdeithasol a hefyd gydag Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC), ac wedi darparu rhagor o wybodaeth ag argymhellion i'r AGC wrth iddynt addasu eu dulliau casglu data am gyfrwng iaith gwasanaethau gofal plant. Fy nealltwriaeth i felly yw bod y Llywodraeth a'r AGC yn cydnabod y problemau, a bod gwaith ar y gweill i wella ansawdd y data hwn.

Yn olaf, gofynnoch am asesiad o'r graddau y gall rhieni gael mynediad at y cynnig gofal plant am ddim drwy gyfrwng y Gymraeg a pha gamau y dylai Llywodraeth Cymru eu cymryd i sicrhau bod y ddarpariaeth yn diwallu'r galw.

Nid oes unrhyw ddata cyhoeddus hyd yma ynglŷn â'r cynnig gofal plant a fyddai'n fy ngalluogi i gynnig asesiad dilys. Rwyf ar ddeall y bydd y Llywodraeth yn cyhoeddi gwerthusiad o'r cynllun peilot cyn diwedd y flwyddyn, ac y bydd y gwerthusiad hwn yn darparu gwybodaeth gyfredol am argaeledd darpariaeth cyfrwng Cymraeg.

Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner

Er na allaf gynnig asesiad manwl o’r cynnig gofal plant, roedd y nodyn briffio yn cynnwys dadansoddiad ystadegol o sefyllfa darpariaeth gofal plant cyfrwng Cymraeg yn fwy cyffredinol. Mae gennyf bryder ynglŷn â dilysrwydd a dibynadwyedd y data sy’n bodoli, ond un peth sy’n weddol amlwg yw bod diffyg darpariaeth gofal plant cyfrwng Cymraeg ar hyd a lled Cymru (gweler atodiad 1 a 2).

O ystyried mai dim ond 13% o wasanaethau gofal plant Cymru sydd ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg, mae’n anorfod y bydd problemau sylfaenol o ran galluogi rhieni i fanteisio ar y cynnig gofal plant drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae’n rhesymol dod i’r casgliad y byddai mwyafrif helaeth y rhieni sydd yn dewis addysg cyfrwng Gymraeg i’w plant, hefyd yn dymuno manteisio ar ofal plant cyfrwng Cymraeg pe bai ar gael. Mae 22% o blant ar hyn o bryd yn mynychu addysg gynradd cyfrwng Cymraeg, ac felly mae’n ymddangos nad yw’r ddarpariaeth gofal plant yng Nghymru yn agos at ddiwallu galw rhieni, heb sôn am ddenu mwy o rieni i ddewis gofal plant ac addysg gyfrwng Gymraeg i’w plant. Mae’r data hefyd yn amlygu y bydd gallu rhieni i gael mynediad at y cynnig gofal plant drwy gyfrwng y Gymraeg yn amrywio yn sylweddol o un ardal i’r llall.

Dyma’r prif gamau rydym wedi awgrymu a’u trafod gyda Llywodraeth Cymru:

1. **Cynnwys deilliant a thargedau gofal plant yn y CSGAau** - gweler uchod

2. **Gwella dilysrwydd a dibynadwyedd data gofal plant** – gweler uchod

3. **Grant Cyfalaf y Cynnig Gofal Plant a chynlluniau cyllido eraill** - mae’r Llywodraeth wedi cyhoeddi bod cyllid o £60 miliwn ar gael dros y tair blynedd nesaf ar gyfer prosiectau cyfalaf i ddatblygu a gwella darpariaethau gofal plant yng Nghymru. Yn ddiweddar cyhoeddodd y Llywodraeth bod £13 miliwn o’r grant hwn wedi ei ddefnyddio ochr yn ochr â’r Grant Cyfalaf Addysg Cyfrwng Cymraeg at bwrpas prosiectau sy’n cydleoli darpariaeth gofal plant ac addysg cyfrwng Cymraeg. O ystyried y diffyg darpariaeth gofal plant cyfrwng Cymraeg ar hyn o bryd, a hefyd weledigaeth Cymraeg 2050, rwyf yn argymell y dylai’r Llywodraeth ystyried bod cynnig darpariaeth cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog yn amod ar gyfer rhyddhau arian cyfalaf at unrhyw brosiect sy’n rhan o’r rhaglen. Yn sgil diffyg integreiddio agenda Cymraeg 2050 a’r ‘cynnig 30 awr’ o’r cychwyn cyntaf, mae’r arian cyfalaf hwn yn un ffordd uniongyrchol o gynyddu darpariaeth cyfrwng Cymraeg ar draws Cymru. Dylid hefyd ddefnyddio ac ymestyn cynlluniau cyllido eraill, er enghraifft, y gwaith sydd yn digwydd gyda’r Mudiad Meithrin i agor cylchoedd meithrin newydd.

4. **Bill Cyllido Gofal Plant (Cymru)** - er bod y Bil hwn yn ymwneud â rhan eithaf technegol o weithredu'r cynnig 30 awr, mae’n cynnig cyfle i gryfhau’r ddeddfwriaeth o ran darpariaeth gofal plant cyfrwng Cymraeg. Er enghraifft, mae’n bosib gall y ddeddfwriaeth gryfhau ac ymestyn y gofynion sydd eisoes wedi’u cynnwys yn y

Comisiynydd y
Gymraeg
Welsh Language
Commissioner

rheoliadau a’r canllawiau statudol sy’n deillio o Ddeddf Gofal Plant (Cymru) 2006. Gallai hyn gynnwys:

- Dyletswydd i gasglu gwybodaeth gan rieni ynglŷn â dewis iaith y ddarpariaeth y byddent yn dymuno i’w plentyn gael.
- Darparu gwybodaeth ynglŷn â manteision addysg gyfrwng Gymraeg a dwyieithrwydd yn gyffredinol.
- Dyletswydd ar awdurdodau lleol i sicrhau digonolrwydd gofal plant cyfrwng Cymraeg, yn unol â dymuniadau rhieni ac yng ngoleuni strategaeth Cymraeg 2050 y Llywodraeth a thargedau CSGAau yr awdurdod lleol.

Byddai angen i unrhyw ddeddfwriaeth newydd ystyried yn ofalus y rhesymau dros ddiffyg cynnydd yn narpariaeth gofal plant cyfrwng Cymraeg yng nghyd destun y ddeddfwriaeth bresennol.

5. **Y gweithlu** - mae’n anodd gweld sut y gellir cyflawni unrhyw un o’r cynlluniau uchod heb sicrhau bod digon o’r gweithlu â sgiliau digonol yn y Gymraeg. Mae gan Lywodraeth Cymru gynllun i wella sgiliau'r gweithlu, ac mae prosiectau fel Cam wrth Gam wedi bod yn llwyddiannus yn cynyddu’r niferoedd staff cyfrwng Cymraeg sydd â chymwysterau yn y sector. Er hynny, mae’n amlwg bod angen cynlluniau a buddsoddiad pellach i’r perwyl hwn.

Rwyf wedi ceisio ateb cwestiynau’r Pwyllgor mor llawn â phosibl, ond cysylltwch ar bob cyfrif os ydych chi’n dymuno rhagor o wybodaeth ar y pwyntiau hyn.

Yn gywir

Meri Huws

**Meri Huws**
Comisiynydd y Gymraeg

Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner

**Atodiad 1:** Prif iaith y ddarpariaeth mewn niferoedd a chanrannau ym mhob awdurdod lleol, yn ôl data'r AGC (25 Medi 2017)

| Awdurdod Lleol | Cymraeg | | Saesneg | | Y Ddwy Iaith | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cymru Gyfan** | **500** | **13%** | **2993** | **77%** | **389** | **10%** |
| **Abertawe** | 7 | 3% | 205 | 93% | 9 | 4% |
| **Blaenau Gwent** | 2 | 3% | 62 | 94% | 2 | 3% |
| **Bro Morgannwg** | 9 | 4% | 207 | 93% | 6 | 3% |
| **Caerdydd** | 28 | 6% | 390 | 88% | 24 | 5% |
| **Caerffili** | 20 | 8% | 214 | 87% | 13 | 5% |
| **Castell-nedd Port Talbot** | 5 | 3% | 138 | 93% | 6 | 4% |
| **Casnewydd** | 2 | 1% | 158 | 96% | 4 | 2% |
| **Ceredigion** | 46 | 41% | 30 | 27% | 35 | 32% |
| **Conwy** | 27 | 19% | 94 | 68% | 18 | 13% |
| **Gwynedd** | 129 | 64% | 19 | 9% | 55 | 27% |
| **Merthyr Tudful** | 3 | 7% | 38 | 84% | 4 | 9% |
| **Pen-y-bont ar Ogwr** | 8 | 5% | 135 | 92% | 4 | 3% |
| **Powys** | 22 | 11% | 160 | 82% | 12 | 6% |
| **Rhondda Cynon Taf** | 18 | 7% | 221 | 88% | 13 | 5% |
| **Sir Benfro** | 19 | 13% | 121 | 82% | 7 | 5% |
| **Sir Ddinbych** | 24 | 17% | 92 | 67% | 22 | 16% |
| **Sir Gaerfyrddin** | 76 | 35% | 66 | 30% | 78 | 35% |
| **Sir y Fflint** | 9 | 4% | 221 | 91% | 14 | 6% |
| **Sir Fynwy** | 1 | 1% | 121 | 98% | 1 | 1% |
| **Torfaen** | 3 | 3% | 89 | 94% | 3 | 3% |
| **Wrecsam** | 11 | 5% | 178 | 88% | 13 | 6% |
| **Ynys Môn** | 31 | 28% | 34 | 31% | 46 | 41% |

Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner

**Atodiad 2:** Canran y plant 7 oed sy'n derbyn addysg cyfrwng Cymraeg (Adroddiad blynyddol strategaeth y Gymraeg 2016-17) a canran y lleoliadau gofal plant cyfrwng Cymraeg ( yn ôl data AGC) fesul awdurdod lleol

| | **% plant 7 oed sy'n cael addysg cyfrwng Cymraeg yn 2016** | **Canran darpariaethau gofal plant cyfrwng Cymraeg yn ôl data AGC yn 2017** |
|---|---|---|
| **Ynys Môn** | 72% | 28% |
| **Gwynedd** | 98% | 64% |
| **Conwy** | 23% | 19% |
| **Sir Ddinbych** | 27% | 17% |
| **Sir y Fflint** | 7% | 4% |
| **Wrecsam** | 13% | 5% |
| **Powys** | 19% | 11% |
| **Ceredigion** | 75% | 41% |
| **Sir Benfro** | 21% | 13% |
| **Sir Gaerfyrddin** | 57% | 35% |
| **Abertawe** | 15% | 3% |
| **Castell-nedd Port Talbot** | 17% | 3% |
| **Pen-y-bont ar Ogwr** | 8% | 5% |
| **Bro Morgannwg** | 15% | 4% |
| **Rhondda Cynon Taf** | 19% | 7% |
| **Merthyr Tudful** | 11% | 7% |
| **Caerdydd** | 16% | 6% |
| **Caerffili** | 17% | 8% |
| **Blaenau Gwent** | 4% | 3% |
| **Torfaen** | 11% | 3% |
| **Sir Fynwy** | 7% | 1% |
| **Casnewydd** | 5% | 1% |
| **Cymru** | **22%** | **13%** |

**Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu**

**6 Rhagfyr 2018**

## Gwybodaeth Gefndirol am yr Archif Ddarlledu Genedlaethol

Prosiect arfaethedig gwerth £9 miliwn gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru yw’r Archif Ddarlledu Genedlaethol. Mae'r Llyfrgell yn bwriadu cyflwyno cais am oddeutu hanner yr arian i Gronfa Dreftadaeth y Loteri, mae £2 miliwn wedi'i ddyrannu o gronfeydd preifat Llyfrgell Genedlaethol Cymru, bydd £0.5 miliwn yn cael ei godi gan ymddiriedolaethau a sefydliadau (wedi’i warantu gan y Llyfrgell Genedlaethol) ac mae cais am gefnogaeth o £1 miliwn gan Lywodraeth Cymru. Daw gweddill y cyllid o tua £0.9 miliwn trwy gyfraniadau mewn nwyddau/cynnyrch gan y Llyfrgell Genedlaethol, BBC Cymru Wales ac amser gwirfoddolwyr.

Mae'r Llyfrgell yn ystyried yr ADdG fel datblygiad pwysig a fyddai'n gweld archif rhaglenni ffisegol BBC Cymru Wales yn cael ei throsglwyddo i'r Llyfrgell Genedlaethol, ynghyd â'r archif sefydliadol a chopïau digidol o’r archif rhaglenni. Mae'r BBC wedi cytuno y gall y Llyfrgell ddarparu 1,000 o glipiau darlledu ar-lein, ac i'r holl archif ddarlledu fod ar gael o bedair Canolfan CLIP ranbarthol yng Nghaerdydd, Caerfyrddin a Wrecsam, yn ogystal ag ar safle'r Llyfrgell yn Aberystwyth.

Byddai mynediad i archif BBC Cymru Wales yn ychwanegiad mawr i'r adnoddau sydd ar gael i ymchwilwyr yn y Llyfrgell Genedlaethol, ac mae'r Llyfrgell yn teimlo y byddai’r Canolfannau CLIP yn gwella proffil y Llyfrgell ac yn ymestyn ei chyrhaeddiad i gymunedau ledled Cymru.

## Cymorth Llywodraeth Cymru

Mae'r Gweinidog Diwylliant, Twristiaeth a Chwaraeon wedi datgan cefnogaeth Llywodraeth Cymru yn gyson i uchelgais y Llyfrgell Genedlaethol i sefydlu Archif Ddarlledu Genedlaethol i Gymru.

Fodd bynnag, cadarnhaodd y Gweinidog wrth Lywydd y Llyfrgell Genedlaethol ar 20 Tachwedd na fyddai Llywodraeth Cymru yn darparu cymorth strategol i'r prosiect, nac yn ymrwymo i sicrhau bod £1 miliwn ar gael i gefnogi gweithredu'r ADdG ***yn ei ffurf bresennol***. Roedd y penderfyniad hwn yn seiliedig ar bryderon ynghylch cynllun y prosiect, diffyg eglurder ynghylch yr effaith y gallai'r ADdG ei chael ar weithgareddau presennol y Llyfrgell yn ystod cyfnod y prosiect Cronfa Dreftadaeth y Loteri, a chostau cynnal yr archif yn yr hir dymor, sef tua £400k y flwyddyn unwaith y daw cyllid CDL i ben yn 2023.

Mae swyddogion wedi codi pryderon ynglŷn â phrosiect yr ADdG gyda'r Llyfrgell Genedlaethol, ac mewn gohebiaeth rhwng y Gweinidog Diwylliant, Twristiaeth a Chwaraeon a Llywydd y Llyfrgell Genedlaethol dros gyfnod estynedig. Ym mis Awst, gofynnodd y Gweinidog am adolygiad trylwyr o'r prosiect ac am ail-lunio'r prosiect lle bo angen er mwyn sicrhau ei fod yn gynaliadwy.  Ni chynhaliwyd yr adolygiad hwn, ac er bod rhywfaint o gynnydd wedi'i wneud mewn trafodaethau gyda BBC Cymru a phartneriaid eraill o ran cynaliadwyedd hirdymor, nid oedd y wybodaeth a ddarparwyd gan y Llyfrgell Genedlaethol yn mynd i'r afael yn llawn â'r pryderon ynghylch y prosiect.

**Dyfodol y prosiect**

Dylid nodi bod yr archif ffisegol eisoes wedi'i digido gan y BBC. Mae Llywodraeth Cymru’n barod i barhau i ymgysylltu â'r Llyfrgell Genedlaethol ac i gefnogi ymdrechion y Llyfrgell i ddatblygu cynllun cadarn a chynaliadwy ar gyfer creu Archif Ddarlledu Genedlaethol. Mae trefniadau ar y gweill i gynnal cyfarfod cyn gynted ag y gellir trefnu hyn.  Mae'r partneriaid yn ceisio ymestyn y dyddiad cyflwyno ar gyfer cais Cronfa Dreftadaeth y Loteri er mwyn gallu cynnal trafodaethau pellach ac, os yn bosibl, i sicrhau canlyniad cadarnhaol.

LLYFRGELL GENEDLAETHOL CYMRU
THE NATIONAL LIBRARY OF WALES

Aberystwyth SY23 3BU | 01970 632800 | gofyn@llyfrgell.cymru | www.llyfrgell.cymru



3 Rhagfyr 2018

Annwyl Dafydd

Diolch i chi am eich llythyr dyddiedig 20 Tachwedd 2018 a drafodwyd yng nghyfarfod Bwrdd yr Ymddiriedolwyr ar 23 Tachwedd. Mynegodd y Bwrdd ei siom yn unfrydol gyda phenderfyniad Llywodraeth Cymru i beidio â chefnogi cais yr Archif Darlledu yn ail rownd Cynllun Grantiau Cronfa Dreftadaeth y Loteri, a mynegwyd pryder y gallai hyn olygu bod £5 miliwn o gyllid mewn perygl. Yr ydym yn ystyried bod y rhodd o archif BBC Cymru Wales yn ychwanegu at yr archif ffilm a sain genedlaethol bresennol ac yn sicrhau bod Cymru'n chwarae rhan flaenllaw mewn archifau cyfryngau rhyngwladol. Yn ogystal, bydd mynediad i fersiwn digidol yr Archif yn ychwanegu deirgwaith at gyfanswm adnoddau digidol y Llyfrgell ac yn darparu adnodd dwyieithog gwych ar gyfer defnydd addysgol, cymunedol a phersonol yn ogystal â darparu cyfleoedd ymchwil helaeth. Mae eich swyddogion wedi eu hysbysu bod y gyfraith ddarlledu yn gwahardd gosod yr archif gyfan ar-lein, fodd bynnag, gan weithio gyda phartneriaid strategol, mae cyfle i ddarparu mynediad y tu hwnt i Aberystwyth ac i osod mil o raglenni ar-lein drwy'r prosiect.

Wrth gyflawni ei Gynllun Strategol a gytunwyd â Llywodraeth Cymru yn 2016, sy'n cynnwys y cynnig i sefydlu Archif Ddarlledu Cenedlaethol, mae'r Llyfrgell yn cydnabod yr angen am ddiwydrwydd dyladwy wrth reoli ei adnoddau ac mae wedi rhannu gwybodaeth berthnasol yn ymwneud â chynnig yr Archif Ddarlledu gyda'ch swyddogion ers i'r cynnig rownd gyntaf gael ei gefnogi gan eich rhagflaenydd yn 2016.

Mae'r Llyfrgell, wrth gwrs, yn barod i ystyried pob opsiwn i ddiogelu'r Archif Darlledu hanesyddol hon ac i sicrhau mynediad i'r cyhoedd i'r casgliad unigryw yma. Bellach, rydym yn ymwybodol y bydd cyfle i gyflwyno'r cais ail rownd erbyn diwedd Mawrth 2019. Felly, byddwn yn croesawu cyfle i'ch swyddogion drafod gyda ni a'r BBC sut y gallem symud ymlaen gyda'n gilydd a chytuno ar gais cryf y gellid ei ystyried gan Gronfa Treftadaeth y Loteri ar lefel y DU yn gynnar yn haf 2019.

Dymuniadau gorau

Rhodri Glyn Thomas
Llywydd

llywydd@llgc.org.uk



Rhif elusen gofrestredig | Registered charity number 525775

Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu

**National Assembly for Wales**
Culture, Welsh Language and Communications Committee

Y Gwir Anrh. Dafydd Elis Thomas AC
Y Gweinidog dros Ddiwylliant, twristiaeth a Chwaraeon
Llywodraeth Cymru
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd CF99 1NA

Rhagfyr 2018

Annwyl Dafydd

**Yr Archif Ddarlledu Genedlaethol**

Rhoddodd Llywydd a Llyfrgellydd y Llyfrgell Genedlaethol dystiolaeth i'r Pwyllgor yn ein cyfarfod yn Aberystwyth ar 6 Rhagfyr. Ymhlith materion eraill, craffodd y Pwyllgor ar gynrychiolwyr y Llyfrgell ynghylch y cais i Gronfa Dreftadaeth y Loteri am £5 miliwn i helpu i sefydlu Archif Ddarlledu Genedlaethol.

Gwelodd yr Aelodau hefyd nodyn briffio ar y mater a anfonwyd gan eich Ysgrifennydd Preifat ar 5 Rhagfyr. Mae'r nodyn hwnnw bellach wedi'i gyhoeddi fel papur i'w nodi ar gyfer cyfarfod y Pwyllgor yr wythnos hon, ynghyd â llythyr Llywydd y llyfrgell atoch, dyddiedig 3 Rhagfyr.

Yn y cyfarfod yr wythnos diwethaf, dywedwyd wrthym mai'r dyddiad cau ar gyfer gwneud cais am arian yw dechrau mis Mawrth y flwyddyn nesaf ond y dyddiad cau ymarferol yw dyddiad y cyfarfod arfaethedig rhyngoch chi a chynrychiolwyr y Llyfrgell ym mis Chwefror. Os na chytunir ar gyfraniad y Llywodraeth erbyn y dyddiad hwnnw, mae'n annhebygol y bydd y prosiect yn mynd rhagddo.

Mynegodd Aelodau'r Pwyllgor bryder ynglŷn ag amwysedd ymddangosiadol Llywodraeth Cymru ynghylch a fydd yn darparu'r £1 filiwn o gymorth ariannol sydd ei angen i sicrhau bod y prosiect yn dwyn ffrwyth. Roedd yr Aelodau'n ei chael yn anodd deall pam y mae Llywodraeth Cymru o bosibl yn peryglu'r prosiect am resymau sy'n ymddangos yn aneglur ac yn annelwig ar hyn o bryd.

Roedd yr Aelodau hefyd yn pryderu bod gwrthwynebiadau Llywodraeth Cymru i'r prosiect yn ymddangos yn fwy sylfaenol nag oedd yn amlwg yn yr atebion a roddwyd gennych yn dilyn cwestiwn amserol Dai Lloyd yn y Siambr ar 28 Tachwedd.

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddDGCh@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/SeneddDGCh
0300 200 6565

**National Assembly for Wales**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddCWLC@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddCWLC
0300 200 6565

O ystyried y brys, ac er mwyn ceisio cael dealltwriaeth gliriach o'ch pryderon, cytunodd y Pwyllgor i'ch gwahodd i ddod i gyfarfod y Pwyllgor ddydd Iau 10 Ionawr i ateb cwestiynau'r Aelodau ar y mater hwn.

Byddwn yn ddiolchgar pe gallai eich swyddogion gysylltu â Chlerc y Pwyllgor i drefnu'r union fanylion.

Yn gywir

**Bethan Sayed AM**
Cadeirydd